**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

**Rheoliadau Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Swyddogaethau Awdurdodau Iechyd a Threfniadau Gweinyddu) (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**

Mae adran 4 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i ddarparu llety a gwasanaethau ysbyty i bersonau a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac y mae arnynt angen triniaeth o dan amodau o ddiogelwch mawr oherwydd eu tueddiadau peryglus, treisgar neu droseddol.

Mae'r rheoliadau presennol yn darparu i swyddogaeth y Cynulliad o dan adran 4 gael ei harfer, yng Nghymru, gan yr Awdurdodau Iechyd. Gweithredir hyn drwy estyn darpariaeth ychwanegol i Gymru a gafodd ei mewnosod yn Atodlen 1 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Swyddogaethau Awdurdodau Iechyd a Threfniadau Gweinyddu) 1996 drwy ddiwygio rheoliadau a wnaed ar gyfer Lloegr.

Yn ychwanegol, yn gyfochrog â diwygiadau a wnaed ar gyfer Lloegr, mewnosodir darpariaeth sy'n benodol ar gyfer Cymru i ddarparu wrth arfer y swyddogaeth hon y gall yr Awdurdodau Iechyd wneud contract NHS i ddarparu gwasanaethau seciatrig o ddiogelwch mawr ond gyda'r canlynol yn unig -

> Awdurdodau Ysbyty Ashworth, Broadmoor a Rampton neu
>
> Ymddiriedolaeth NHS a gymeradwywyd i'r diben hwnnw naill ai gan y Cynulliad yng Nghymru, neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Er hynny, y mae rhai sylwadau cyffredinol y bernir y dylid eu dwyn i sylw'r Cynulliad.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol**

Mae'r cyfeiriad ar reoliadau 1996 yn y paragraff cyntaf yn anghywir yn cynnwys "(Cymru") yn y

teitl.

Byddai’r nodyn esboniadol hefyd yn gliriach pe bai’r paragraff cyntaf wedi’i rannu’n ddau. Yn ychwanegol, efallai na ddeellir ar unwaith fod y cyfeiriad at "gwasanaethau perthnasol" yn ymwneud â’r cyfeiriad blaenorol at "cyfleusterau".

**Rheoliad 2(2)**
Nid yw’r rhifau a ddefnyddir yn y paragraff a fewnosodir (3B) yn cyd-fynd â’r arfer cyffredin – h. y. ni fyddai rhifolion Arabig fel arfer yn cael eu defnyddio yn y paragraffau am mai dyma’r dull o ddefnyddio’r rhifau am y paragraffau eu hunain.

**Rheoliad 2(3)**
Gellid bod wedi cynnwys y ddarpariaeth hon fel mewnosodiad testunol yn rheoliadau 1966 (o bosibl fel paragraff ychwanegol yn rheoliad 4). Byddai darpariaeth wedi bod wedyn yng nghorff rheoliadau 1966 i ddangos bod y diwygiadau i Atodlen 1 yn gymwys yng Nghymru yn ogystal ag yn Lloegr.

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf LAD 01-01-111

18 Ebrill 2000